| | | |
|---|---|---|
| **Minutes of the meeting hel don the 11th Novemebr 2025 at the Memorial Hall at 7 p.m.** | | |
| **PRESENNOL** | | |
| Eifion Williams | Owain Jones | |
| Iolo Williams | Dafydd Hughes | |
| Meleri Jones | Deiniol Tegid | |
| Llŷr Evans | Emyr Gareth | |
| | | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cynghorydd Eifion Williams.(Cadeirydd). Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gareth Humphreys, Cynghorydd Cynog Prys, Cynghorydd Eleri Wyn Thomas a'r Cynghorydd Daniel Williams.<br>Derbyniwyd hefyd ymddiswyddiad Sian Williams. | **CLERC** |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd. | |
| **1.2** | Arolwg Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd - y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor. | **CLERC** |
| **1.3** | Prydles tir yr hen reilffordd a phrydles Stad y Goron - nid oes unrhyw ddilyniant wedi bod ar gyfer y ddau fater. Er hynny mae Mr Iestyn Harris wedi cadarnhau y bydd yn fodlon i weithredu fel cyfreithiwr ar ran y Cyngor. | **CLERC** |
| **1.4** | Grant ar gyfer Dydd Gwy Dewi - yn anffodus nid oedd digon o amser i gynllunio digwyddiad er mwyn gwneud cais am yr arian. | **CLERC** |
| **1.5** | Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-2027 - derbyniwyd y wybodaeth ac nid oedd gan y Cyngor sylwadau. | |
| **1.6** | Erthygl 4 a dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd - trafodwyd y mater hwn a phenderfynwyd anfon gwahoddiad i wasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd i geisio cael cyflwyniad ar y mater gan un o'i swyddogion - y Clerc i anfon gwahoddiad. | |
| **1.7** | Darpariaeth parcio ger Seilo - mae sefyllfa ger Cae Pêl droed oherwydd y parcio ar y briffordd yn achosi pryder. Mae modd datblygu parcio ar y ffordd gefn. Deallir bod y tir ar ymylon y ffordd hon yn perthyn i Lywodraeth Cymru. Penderfynwyd anfon at Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i ymholi oes modd iddynt alluogi'r Cyngor i ddatblygu ymylon y ffordd ar gyfer parcio echelon (ar ongl). | **CLERC** |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| **2.1** | **Cynghorydd Emyr Gareth ar gyfer eitem 1.3** | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL** | |
| **3.1** | Derbyniwyd gwariant mis Hydref 2025. Derbyniwyd hefyd adroddiad ariannol am y mis hwnnw. | |



Heather Lynne Jones

| | | |
|---|---|---|
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Hydref 2025. | |
| **4.2** | Cynllun Rheoli Traffig - ystyriwyd arwyddion arfaethedig ar gyfer y cynllun. Penderfynwyd mai opsiwn 1 fyddai yn addas. Y Clerc i anfon i gael cynlluniau newydd yn dangos yr opsiwn yma cyn anfon ymlaen i dderbyn pris ar gyfer eu gosod. | **CLERC** |
| **4.3** | Llwybr Cerrig yr Afon - y contractwr wedi derbyn cynllun ar gyfer gosod mynedfa anifeiliaid at yr afon newydd, gobeithir bydd hwn a'r gwaith trwsio ar y ffens yn cael ei weithredu yn fuan. | **CLERC** |
| **4.4** | Llwybr Beicio ger yr hen fodurdy. Mae'r swyddog Cyngor Gwynedd yn awyddus i dderbyn gwybodaeth am yr hen gynllun o ymestyn y Llwybr Beicio presennol er mwyn trafod y mater bellach. Mae adran eiddo Cyngor Gwynedd yn awyddus i reoleiddio defnydd y tir ar gyfer mynedfa i barcio cerbydau yng nghefnau'r tai ar sail dros yn unig. Mae'r adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd yn barod i wneud y gwaith cyfreithiol yn rhad ag am ddim. Trafodwyd y mater a chytuno dylid rheoleiddio'r ymarferiad dros dro yn unig. Y clerc i anfon i gadarnhau mai hyn yw dymuniad y Cyngor Cymuned hefyd a bod cyfreithiwr y Cyngor Cymuned yn barod i wirio'r brydles a chytundebau. | **CLERC** |
| **4.5** | Cae Chwaraeon Lan y Môr - cais Cynllunio wedi ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd, bellach mae'r cais wedi ei anfon am ymgynghoriad a chyrff statudol. | |
| **4.6** | Gwasanaethau Bysiau a Safe Bws - ymateb Llywodraeth Cymru wedi ei dderbyn drwy'r Aelod Seneddol Siân Gwenllïan. Penderfynwyd anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn oes modd i Gyngor Gwynedd gyflwyno gwasanaeth dan gontract drwy'r Felinheli o Gaernarfon i Fangor ac o Fangor i Gaernarfon yn unol â chontractau sydd yn bodoli o Lanrug a Llanberis. Nid yw'r gwaith o farcio a gosod arwydd ar y safle bws wedi ei weithredu i ddyddiad - y Clerc i anfon eto at y swyddogion i ddatgan bod y gwaith hwn yn hanfodol ac angen ei wneud ar frys. | **CLERC/EW** |
| **5.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| **5.1** | Rhif Cais : C25/0718/20/CT Lleoliad: 4 Aber Cottages, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JY Bwriad: Tocio coron coeden mewn Ardal Gadwraeth. **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **5.2** | Rhif Cais: C25/0740/20/AM Lleoliad: Land At And Adjt To The Former Ferodo Site, Griffiths Crossing, Caernarfon, LL55 1TP Bwriad: Cais amlinellol gyda holl faterion wedi eu cadw'n ol ar gyfer dymchwel adeiladau a strwythurau presennol, ailraddio'r tir a chodi adeilad canolfan data (B8) ynghyd a chyfarpar cysylltiol i gynnwys generaduron, peirianwaith, cyfarpar, is-orsaf(oedd), mynedfeydd, parcio ac ardaloedd gwasanaethu, gwaith draenio a peirianyddol | |

| | | |
|---|---|---|
| | gan gynnwys cysylltu ag ail-leoli gwasanaethau **SYLWADAU** | |
| **5.3** | Rhif Cais.: C25/0781/20/DT Lleoliad: 20 Bryn Y Môr, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4LY Bwriadl: Estyniad unllawr cefn **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **5.4** | Rhif Cais: C25/0794/20/LL Lleoliad: Cae Pêl Droed, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JZ Bwriad: Adeiladu ffens newydd **ER GWYBODAETH- CAIS Y CYNGOR** | |
| **6.0** | **RHEOLAETH** | |
| **6.1** | Gwaith ar y wefan yn parhau. | **CLERC** |
| **6.2** | Polisi Meinciau - mae polisi drafft wedi ei gyfansoddi ac ar hyn o bryd mae yn derbyn sylw Pwyllgor Asedau cyn fydd yn cael ei anfon at Pwyllgor Rheolaeth am sylw ar gyfer argymell y cam nesaf gan y Cyngor. | |
| **7.0** | **ASEDAU** | |
| **7.1** | Gwaith ar y cysgodfannau - y contractwr wedi cael profedigaeth a bydd yn gwneud y gwaith o fewn y bythefnos nesaf. | **CLERC/DW** |
| **7.2** | Tir yr hen Rheilffordd - gwaith torri nôl tyfiant, thocio coed a chynnal a chadw'r tir; nid oedd y Cynghorydd Dan Williams yn bresennol ar gyfer rhoi unrhyw ddilyniant ar y cynllun. | |
| **8.0** | **LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD** | |
| **8.1** | Llwybrau Aberpwll - cafwyd dilyniant nad oedd llwybrau cyhoeddus o fewn yr ardal a bod trefniadau hanesyddol o gerdded drwy dir preifat wedi bodoli er amser a bellach nid yw'r perchnogion tir newydd bellach eisiau'r ymarferiad hwn i barhau. Nid yw'r Cyngor Cymuned yn gallu ymdrin â materion o'r math yma. | **CLERC** |
| **9.0** | **NEUADD GOFFA A CHLOC** | |
| **9.2** | Mae to'r neuadd angen waith. Pris wedi ei dderbyn gan gontractwr ac mae wedi ei hysbysu ar gyfer gweithredu. | |
| **10.00** | **CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL** | |
| | Dim dilyniant i adolygiad yr asesiad risg na hyfforddiant blynyddol | **EG** |
| | **Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 8:30 yn yr hwyr.** | |
| **Llofnod:** | | |



Heather Lynne Jones